Caradog y **Cyfriniwr**

Bydd angen dau berson sydd wedi dysgu'r tric. Mae'r meddwl y tu ôl iddo yn eithaf cymhleth felly dim ond gyda'r grwpiau hŷn rydyn ni wedi gwneud hyn.

1. Mae aelod o'r gynulleidfa'n cymysgu'r pac ac yn delio 5 cerdyn i berson B.

2. Mae person B yn dweud yn hyderus y gall adnabod yn "seicig" un o'r cardiau a throsglwyddo hynny i "Caradog y Cyfriniwr" (Person A)

Sut mae Person B yn gorfod trefnu'r cardiau.

- Rhaid i unrhyw bum cerdyn ddangos o leiaf un siwt fwy nag unwaith.
- Gosodwch y cardiau gyda siwt sy'n ymddangos fwy nag unwaith yn Safleoedd 2 a 5.
- Bydd Caradog y Cyfriniwr yn gorfod dyfalu beth yw cerdyn 5. Drwy edrych ar gerdyn 2, bydd yn gwybod ar unwaith beth yw siwt cerdyn 5.
- Nawr bydd cardiau 1, 3 a 4 yn dweud wrth Caradog y Cyfriniwr faint o lefydd mae angen iddo gyfrif ymlaen o gerdyn 2 er mwyn cyrraedd gwerth safle cerdyn 5. (Er enghraifft os mai 3 y calonnau yw cerdyn 2, ac mai 6 y calonnau yw cerdyn 5, mae'n rhaid iddo gyfrif ymlaen 3 lle.)
- Gellir trefnu cerdyn 2 a cherdyn 5 fel nad oes byth angen i chi adio mwy na 6 i gerdyn 2 er mwyn cael cerdyn 5. (Gan dybio bod y pac yn gylchol, felly os adiwch 3 i Frenin y Calonnau, bydd hyn yn rhoi 3 y Calonnau i chi)
- Nawr, rhowch gardiau 1,3 a 4 mewn trefn, yn ôl y tabl isod. Cymrwch fod yr Âs yn isel.

Trefn Cardiau 1,2 a 3	**Faint dylech ei gyfrif ymlaen o Gerdyn 2, i gyrraedd Cerdyn 5**
Isel Canolig Uchel	1
Isel Uchel Canolig	2
Canolig Isel Uchel	3
Canolig Uchel Isel	4
Uchel Isel Canolig	5
Uchel Canolig Isel	6

- Os yw cardiau 1,3 a 4 yn cynnwys gwerth eilaidd (e.e. 2 Frenin) yna mae angen defnyddio Trefn Bridge. Clybiau < Diamwntau < Calonnau < Rhawiau

3. Nawr y cyfan sy'n rhaid i Caradog y Cyfriniwr ei wneud yw edrych ar y pedwar cerdyn a bydd yn gallu gweithio allan beth yw'r pumed cerdyn (cyn belled â bod person B wedi eu trefnu yn gywir!)

Enghraifft

Tybiwch eich bod yn dewis y cardiau isod.



Mae'r Rhawiau yn ogystal â'r Clybiau'n digwydd mwy nag unwaith felly mae dewis gennych chi. Byddwn i'n rhoi 5 y Clybiau yn yr 2il safle a 9 y Clybiau yn safle 5.
Golyga hyn fod angen i mi adio 4 i 5 y clybiau er mwyn cael 9 y Clybiau.
Felly, mae angen i mi roi'r tri cherdyn arall yn y safle: canolig uchel isel. (Naw, Brenin, Chwech)

Mae Caradog y Cyfriniwr bellach yn barod i weithio allan beth yw'r pumed cerdyn.

Trafodaeth gyda'r dosbarth:
Mwy na thebyg, ni fydd rhai disgyblion yn eich credu chi fod modd gwneud hyn gydag unrhyw gyfuniad o gardiau

Rhoddwyd y syniad am y tric yma i ni gan Rob Eastaway (www.robeastaway.com)